# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 27 Medi 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

# 159(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Newid Hinsawdd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg ac Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**

Cefin Campbell (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyhoeddiad bydd y gwasanaeth Fflecsi Bwcabus yn dod i ben, ac effaith hyn ar gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru?

**Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adroddiadau y bydd ysbyty Llwynhelyg ar gau yn rhannol am y rhan fwyaf o 2024?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog - Gwneud offerynnau statudol yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE

(5 munud)

**NDM8363** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, Diwygio'r Rheolau Sefydlog: Gwneud offerynnau statudol yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Medi 2023.

2. Yn cymeradwyo'r cynigion i ddiwygio Rheolau Sefydlog 21, 27, 30B a 30C, fel y nodir yn Atodiad A i adroddiad y Pwyllgor Busnes.

## 6 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Datganoli dŵr yn llawn

(60 munud)

**NDM8274** Rhys ab Owen (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ofyn yn ffurfiol i Lywodraeth y DU gychwyn adran 48(1) o Ddeddf Cymru 2017, a fyddai'n alinio'r ffin cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer dŵr gyda'r ffin genedlaethol.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ofyn yn ffurfiol am y pwerau i drwyddedu cyflenwad dŵr neu drwyddedai carthffosiaeth a thrwy hynny ddatganoli dŵr yn llawn i Gymru.

**Cyd-gyflwynwyr**

Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Jane Dodds (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

Dileu popeth a rhoi yn ei le

1. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am ohirio deddfu adran 48(1) o Ddeddf Cymru 2017.

2. Yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi dweud, mewn llythyr wedi'i gyfeirio at Lywodraeth y DU yn 2018, fod y broses o sicrhau bod cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn cyd-fynd â ffiniau daearyddol yn gymhleth.

3. Yn croesawu parodrwydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Llywodraeth y DU i weithio gyda'u cymheiriaid yng Nghymru i gytuno ar amserlen sy'n gweithio orau i'r ddwy lywodraeth a'r diwydiant dŵr.

## 7 Dadl ar ddeiseb P-06-1332 - Ariannu ymchwil brechlyn i amddiffyn gwiwerod coch rhag feirws marwol brech gwiwerod

(30 munud)

**NDM8359** Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r ddeiseb 'P-06-1332 Ariannu ymchwil brechlyn i amddiffyn gwiwerod coch rhag feirws marwol brech y gwiwerod' a gasglodd 11,306 o lofnodion.

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Asedau cymunedol

(30 munud)

**NDM8361** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod bod asedau cymunedol yn gweithredu fel hybiau lleol ac yn darparu mynediad pwysig at wybodaeth, gwasanaethau, sgiliau a phrofiadau cymdeithasol.

2. Yn cydnabod ymhellach fod asedau cymunedol yn gwella cydlyniant cymunedol ac yn caniatáu i gymunedau lleol gymryd rheolaeth dros lunio'r ardal y maent yn byw ynddi.

3. Yn nodi adroddiad Archwilio Cymru ar gydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau, sy'n nodi bod awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd grymuso pobl a chymunedau i fod yn fwy hunanddibynnol ac yn llai dibynnol ar wasanaethau.

4. Yn gresynu nad oes hawl statudol i gymunedau yng Nghymru brynu tir neu asedau fel yn yr Alban, a dim hawl i wneud cynigion, herio, nac adeiladu fel yn Lloegr.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) diogelu asedau cymunedol drwy alluogi pobl leol i reoli ac ehangu cyfleusterau sydd o fudd i'r gymuned leol; a

b) cyflwyno Cronfa Perchnogaeth Gymunedol a chynllun Hawl i Wneud Cynnig i gefnogi meddiannu asedau megis llyfrgelloedd, tafarndai, canolfannau hamdden a mannau gwyrdd.

Archwilio Cymru: 'Gyda'n gilydd fe allwn ni' – Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau

**Cefnogwyr**

Natasha Asghar (Dwyrain De Cymru)

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu pwyntiau 4 a 5 a rhoi yn eu lle:

Yn croesawu ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i:

a) amddiffyn asedau cymunedol drwy alluogi pobl leol i gynnal ac ehangu cyfleusterau sydd er budd i'r gymuned leol;

b) cydnabod, hyrwyddo a rhannu arferion gorau ar draws y sector cyhoeddus drwy Ystadau Cymru; ac

c) sefydlu Comisiwn Asedau Cymunedol â chylch gorchwyl i ysgogi syniadau arloesol pellach ar berchnogaeth gymunedol o dir ac asedau yng Nghymru.

## 9 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

(30 munud)

**NDM8362** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn datgan nad oes ganddi hyder yn y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd o ystyried y nifer uchaf erioed o lofnodwyr i'r ddeiseb: 'Rydym am i Lywodraeth Cymru ddiddymu'r gyfraith drychinebus ynghylch y terfyn cyflymder o 20mya'.

Deiseb: Rydym am i Lywodraeth Cymru ddiddymu'r gyfraith drychinebus ynghylch y terfyn cyflymder o 20mya

## 10 Cyfnod Pleidleisio

## 11 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8360** Luke Fletcher (Gorllewin De Cymru)

Y 'Draen Dawn' yng Nghymru: Heriau ac Atebion

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 3 Hydref 2023

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 20/09/2023 i'w hateb ar 27/09/2023

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y GWEINIDOG NEWID HINSAWDD

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

1 OQ59961 **(e)**

Pa waith dadansoddi polisi a wnaeth Llywodraeth Cymru cyn cyflwyno terfynau cyflymder o 20mya?

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

2 OQ59972 **(e)**

Pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo plannu coed trefol?

**Ken Skates** *De Clwyd*

3 OQ59956 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu gorchudd coed ar draws Cymru?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

4 OQ59965 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiogelwch ffyrdd ar gefnffordd yr A494 ym Mhwllglas?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

5 OQ59985 **(e)**

Pa fesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddiogelu a gwella rhwydwaith camlesi Cymru?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

6 OQ59977 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cydbwyso'r angen am waith datblygu yn erbyn ei hymrwymiad i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

7 OQ59966 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau diweddaraf mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wella gwytnwch croesiadau'r Fenai?

**Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

8 OQ59980 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chydweithwyr mewn llywodraeth leol i sicrhau bod gan bobl mewn llety dros dro amodau byw addas?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

9 OQ59952 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith amgylcheddol datblygiadau tai mawr ym Mwrdeistref Sirol Caerffili?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

10 OQ59947 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o nifer y tai cymdeithasol yng Nghymru a adeiladwyd gan ddefnyddio dulliau annhraddodiadol?

**Hefin David** *Caerffili*

11 OQ59963 **(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ddiwygio'r broses datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol fel y nodir yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015?

**Buffy Williams** *Rhondda*

12 OQ59989 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cymorth sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer lliniaru llifogydd?

## GWEINIDOG Y GYMRAEG AC ADDYSG

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

1 OQ59959 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch darparu cyrsiau galwedigaethol?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

2 OQ59982 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar wella trafnidiaeth ysgolion i fyfyrwyr?

3 **Alun Davies** *Blaenau Gwent*

## OQ59984 (e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio ffonau symudol mewn ysgolion?

4 **Jane Dodds** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

## OQ59960 (e)

Pa effaith y mae'r grant datblygu disgyblion wedi'i chael ar gyrhaeddiad disgyblion ers ei gyflwyno yn 2012?

5 **Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

## OQ59955 (e)

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i atal gwahaniaethu yn erbyn disgyblion awtistig mewn lleoliadau addysg?

6 **Rhianon Passmore** *Islwyn*

## OQ59964 (e)

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi dysgu oedolion yn y gymuned yn Islwyn?

7 **Joel James** *Canol De Cymru*

## OQ59976 (e)

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganfyddiadau'r cynllun treialu diwrnod ysgol hirach?

8 **Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

## OQ59954 (e)

Pa gyllid y mae'r Gweinidog yn ei ddarparu i ysgolion i gefnogi myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol?

9 **Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

## OQ59958 (e)

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr ynghylch lleihau cost gwisgoedd ysgol?

10 **Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

## OQ59978 (e)

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi disgyblion ag amhariad ar eu clyw yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro?

**Peter Fox** *Mynwy*

11 OQ59971 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r system anghenion dysgu ychwanegol newydd?

**Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

12 OQ59981 **(e)**

A yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw asesiad o'r effaith ar sector addysg uwch Cymru yn sgil yr oedi wrth ailymuno â Horizon Ewrop?